**PWYLLGOR CYFLE CYFARTAL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 20 Mawrth 2003 |
| **Amser:** | 9:00am |
| **Lleoliad:** | Ystafelloedd Pwyllgora 3 a 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol, Bae Caerdydd |
| **Teitl:** | Ymateb drafft i ddogfen ymgynghorol y Comisiwn Etholiadol 'Equal Access: A review of access to electoral procedures in the UK' |

**Diben**

1. Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi cyhoeddi dogfen ymgynghori, *'Equal Access: A review of access to electoral procedures in the UK'*, sy'n gofyn am safbwyntiau mewn perthynas â gwella mynediad i'r broses ddemocrataidd.

2. Mae'r papur hwn yn cynnig ymateb drafft i'r cwestiynau a ofynnir yn yr ymgynghoriad. (Ceir copi o'r ymateb drafft yn Atodiad A).

**Amseru / Argymhelliad**

3. Mae cyfnod ymgynghori y Comisiwn Etholiadol yn cychwyn ar 5 Mawrth tan 21 Mawrth 2003. Felly mae angen i'r Pwyllgor gytuno ar ei ymateb yn y cyfarfod ar 20 Mawrth er mwyn sicrhau bod yr ymateb yn cael ei ddychwelyd cyn y dyddiad cau.

4. Lluniwyd yr ymateb drafft i'r cwestiynau a ofynnwyd yn y ddogfen ymgynghori, lle yr oedd hynny'n bosibl, ar sail ystyriaeth flaenorol gan y Pwyllgor ar y mater hwn. Serch hynny, o ystyried bod llawer o'r cwestiynau yn rhai manwl iawn ac yn cyfeirio at faterion nad ydynt wedi cael ryw lawer o ystyriaeth gan y Pwyllgor, ac yn enwedig cwestiwn 3, bydd angen i'r Pwyllgor drafod ei ymateb drafft er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'i safbwyntiau.

5. Gwahoddir y Pwyllgor i drafod yr ymateb drafft, sydd wedi'i amgáu yn Atodiad A, a chytuno ar fersiwn o'r ymateb i'w gyflwyno.

**Y Cefndir**

6. Mae ymgynghoriad y Comisiwn Etholiadol yn rhan o'r adolygiad mynediad. Sefydlwyd yr adolygiad er mwyn:

- asesu'r lefel mynediad presennol i weithdrefnau etholiadol yn y DU; ac
- argymell newidiadau er mwyn sicrhau bod mwy o etholwyr, sy'n wynebu anfanteision o ganlyniad i'r system bresennol, yn medru cymryd rhan.

7. Mae gofynion yr anabl, pobl sydd â lefelau isel o ran llythrennedd a'r rhai sy'n ystyried Saesneg fel ail iaith yn berthnasol iawn i'r adolygiad. Mae'r ymgynghoriad yn edrych ar ystod eang o weithdrefnau etholiadol gan gynnwys mynediad i orsafoedd pleidleisio a llenyddiaeth etholiadol - er enghraifft, hysbysiadau yn y gorsafoedd pleidleisio, cardiau pleidleisio a ffurflenni cofrestru'r etholaeth.

8. Amgaewyd copi cyflawn o'r ddogfen ymgynghori yn Atodiad B a cheir crynodeb o drafodaethau blaenorol y Pwyllgor mewn perthynas â mynediad i orsafoedd pleidleisio yn Atodiad C.

**Camau i'w cymryd**

9. Gofynnir i'r Pwyllgor drafod a chytuno ar ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad. (Amgaewyd yr ymateb drafft yn Atodiad A).

**Pwynt Cyswllt**

Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor